# Arddangosfa Haf 2027: Galwad Agored

Oherwydd poblogrwydd cynyddol ein Harddangosfa Haf flynyddol a'r nifer uchel o geisiadau a dderbyniwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, cyffrous yw cyflwyno fformat newydd o 2027 ymlaen.

Mae Plas Glyn-y-Weddw yn falch iawn o lansio **Arddangosfa Agored yr Haf 2027**, ein harddangosfa cyfryngau cymysg flynyddol sy'n dathlu creadigrwydd o bob cwr o Gymru a thu hwnt.

Bydd yr arddangosfa'n parhau i gynnig cyfle i artistiaid ym mhob cam o'u taith greadigol arddangos a gwerthu gwaith yn un o ganolfannau celfyddydau blaenllaw Cymru. Er mwyn cefnogi'r twf hwn a sicrhau arddangosfa fywiog ac o ansawdd uchel, bydd pob artist sy'n cymryd rhan bellach yn cael ei ddewis trwy broses gyflwyno agored.

## Pwy All Ymgeisio?

Rydym yn croesawu ceisiadau gan artistiaid o bob cefndir a lefel o brofiad. P'un ai ydych chi'n artist proffesiynol, yn ymarferydd sy'n dod i'r amlwg, yn fyfyriwr, neu'n rhywun sy'n creu yn eich amser hamdden, rydym yn eich annog i gyflwyno eich gwaith i gael ei ystyried.

Rhaid i ymgeiswyr fod yn 16 oed neu'n hŷn.

## Y Broses Ddethol

O 2027 ymlaen, rhaid i bob artist sy'n dymuno arddangos gyflwyno eu gwaith trwy'r broses ymgeisio ar-lein.

Bydd panel dethol annibynnol yn adolygu pob cyflwyniad. Bydd gweithiau llwyddiannus yn rhan o arddangosfa "oddi ar y wal" cyfrwng cymysg, lle mae gweithiau celf ar gael i'w prynu a'u casglu ar unwaith drwy gydol cyfnod yr arddangosfa. O ganlyniad, bydd yr arddangosfa'n esblygu'n barhaus wrth i weithiau gael eu gwerthu.

Y gweithiau a gyflwynir drwy'r broses ymgeisio fydd y gweithiau a ystyrir i'w dewis ac, os cânt eu dewis, byddant yn cael eu harddangos yn Arddangosfa'r Haf 2027. Felly, dylai artistiaid sicrhau bod y delweddau a gyflwynir yn cynrychioli'n gywir y gwaith celf y maent yn bwriadu ei arddangos. Rhaid i'r gweithiau a gyflwynir fod ar gael ar gyfer yr arddangosfa, gan na dderbynnir gweithiau amgen na rhai yn lle'r rhai gwreiddiol.

## Gwobrau

Gwobr Dewis y Beirniaid – £1,500 + arddangosfa unigol

Gwobr Artist Ifanc (Dan 25) – £500

## Ffi Gyflwyno

£15 am hyd at 3 gwaith

Cyflwyniadau ychwanegol: £5 y gwaith

Uchafswm cyflwyniad: 6 gwaith

## Dyddiadau Pwysig

Cyflwyniadau Ar Agor: 1 Medi 2026

Dyddiad Cau ar gyfer Cyflwyniadau: 1 Mawrth 2027

Dyddiadau Arddangosfeydd: 25 Gorffennaf – 3 Hydref 2027

## Sut i Ymgeisio

Rhaid cyflwyno ceisiadau ar-lein trwy wefan Plas Glyn-y-Weddw yn fama.

Croesawn geisiadau gan artistiaid o bob cefndir ac ar bob cam o'u gyrfaoedd.

## Y Broses Ymgeisio

1. Crëwch gyfrif CuratorSpace am ddim drwy ddilyn y ddolen yma.
2. Cwblhewch y ffurflen gais ar-lein a gwnewch y taliad gofynnol. Sylwch: Rhaid i'r gwaith celf rydych chi'n ei gyflwyno fel rhan o'ch cais fod yn waith rydych chi'n bwriadu ei arddangos os cewch eich dewis.
3. Gwiriwch statws eich cais ar ôl 1 Mawrth 2027. Bydd tîm Plas Glyn-y-Weddw yn cysylltu ag ymgeiswyr llwyddiannus gyda rhagor o wybodaeth unwaith y bydd y panel dethol wedi cwblhau ei adolygiad

# Cwestiynau Cyffredin

## Pwy sy'n gymwys ar gyfer y cyfle hwn?

Rydym yn croesawu ceisiadau gan artistiaid o bob cefndir a phob lefel o brofiad. P'un a ydych yn artist proffesiynol, yn ymarferydd sy'n datblygu, yn fyfyriwr, neu'n creu yn eich amser hamdden, rydym yn eich annog i gyflwyno eich gwaith.

Rhaid i ymgeiswyr fod yn 16 oed neu'n hŷn.

## Pryd yw'r dyddiad cau?

1 Mawrth 2027, 17:00.

## Faint o weithiau y gallaf eu cyflwyno?

Hyd at 6.

## Pa fath o weithiau y gallaf eu cyflwyno?

Mae'r arddangosfa agored hon ar gyfer celf weledol yn unig. Rydym yn croesawu cyflwyniadau ar draws ystod eang o ddisgyblaethau celf weledol, gan gynnwys paentio, lluniadu, gwneud printiau, ffotograffiaeth, cerflunio, cerameg, tecstilau, cyfryngau cymysg ac arferion celf weledol eraill.

Yn anffodus, ni allwn dderbyn gwaith ysgrifenedig, ffilm, fideo, animeiddio, cerddoriaeth, gwaith sain, perfformio na chyfryngau nad ydynt yn weledol.

## A oes terfyn maint ar gyfer ceisiadau?

Y maint mwyaf ar gyfer gweithiau sy'n cael eu gosod ar waliau yw 1$m^2$, a 60$cm^3$ ar gyfer gweithiau sy'n cael eu gosod ar blinth neu ar y llawr.

## Faint mae'n ei gostio?

- £15 am hyd at 3 gwaith
- Ceisiadau ychwanegol: £5 y gwaith
- Uchafswm cyflwyniadau: 6 gwaith

## Beth yw cyfradd comisiwn yr oriel ar werthiannau?

Mae Plas Glyn-y-Weddw yn codi comisiwn o 43% ar bob gwaith celf a werthir yn ystod yr arddangosfa. Caiff y comisiwn hwn ei dynnu o'r pris gwerthu terfynol.

## A fydd agoriad swyddogol, a phwy allaf ei wahodd?

Bydd agoriad cyhoeddus i Arddangosfa'r Haf 2027. Mae'r mynediad yn rhad ac am ddim, mae croeso i ffrindiau a theulu, a darperir lluniaeth. Bydd Plas Glyn-y-Weddw hefyd yn cynhyrchu gwahoddiad copi caled a digidol, a fydd yn cael ei ddosbarthu trwy y rhestr bostio.

## Beth yw oriau agor yr arddangosfa?

9:30–17:00, 7 diwrnod yr wythnos, gyda mynediad am ddim.

## A yw'r oriel yn hygyrch?

Ydy. Mae parcio hygyrch ar gael yng nghefn yr adeilad, ac mae lifftiau a thoiledau hygyrch ar gael hefyd.

## Pa gyhoeddusrwydd fydd yn cael ei ddarparu fel rhan o'r cyfle hwn?

Bydd Arddangosfa Haf 2027 yn cael ei hyrwyddo ar draws holl sianeli cyfryngau cymdeithasol Plas Glyn-y-Weddw, yn ogystal â thrwy ddeunyddiau hyrwyddo printiedig. Bydd gwaith a gwybodaeth yr artistiaid hefyd ar gael i'w gweld a'u prynu ar-lein yn _.

## A oes angen i mi fod yn bresennol yn y lleoliad?

Nac oes.

## Sut ydych chi'n dewis y cynigion?

Bydd pob cyflwyniad yn cael ei adolygu gan banel dethol annibynnol.

## Sut byddaf yn gwybod a yw fy nghais wedi bod yn llwyddiannus ai peidio?

Gwiriwch statws eich cais ar CuratorSpace ar ôl 1 Mawrth 2027. Bydd yn dangos naill ai 'Accepted' neu 'Declined'.

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus yn cael eu cysylltu gan dîm Plas Glyn-y-Weddw. Bydd yr holl wybodaeth am y camau nesaf yn cael ei darparu yn yr e-bost hwnnw. Cofiwch wirio eich mewnflwch a'ch ffolder sbam.

## Pa fath o gynigion ydych chi'n chwilio amdanynt?

Mae'r arddangosfa'n cynnig cyfle i artistiaid ar bob cam o'u taith greadigol arddangos a gwerthu eu gwaith. Rydym yn croesawu ceisiadau gan artistiaid 16 oed a hŷn, gan gynnwys y rhai sy'n newydd i'r maes neu'n datblygu eu hymarfer.

Er bod y cyfle'n agored i bawb, disgwylir i'r gweithiau a ddewisir gyrraedd safon broffesiynol sy'n addas ar gyfer arddangos a gwerthu. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn cynigion sydd wedi'u datblygu'n dda, wedi'u hystyried yn ofalus, sydd ag amcan artistig clir a photensial masnachol cryf.

## Beth yw'r meini prawf dethol?

Rhaid i bob gwaith fod wedi'i gwblhau ar adeg ei gyflwyno. Gall gweithiau sy'n wahanol i'r cyflwyniad gwreiddiol o ran ymddangosiad neu faint gael eu gwrthod.

## Rwy'n cael trafferth cwblhau'r ffurflen. Gyda phwy y gallaf gysylltu?

Cysylltwch â thîm Plas Glyn-y-Weddw drwy e-bost: *post@oriel.org.uk*